**Cofnodion Cyfarfod Cyngor Cymuned Llanfihangel Ystrad a gynhaliwyd ar Nos Fawrth, 14eg Medi, 2021 am 7.30 yn Neuadd Dihewyd**

**Cynhaliwyd y cyfarfod gyda'r holl weithdrefnau a phrotocolau isod ar waith.**

- Gosod bordydd a chynnal pellter cymdeithasol o 2 fetr.
- Gwisgo masg trwy gydol y cyfarfod.
- Darparwyd hylif dwylo ar bob ford
- Cadwyd y sesiwn yn gryno
- Paratowyd Asesiad Risg

**PRESENNOL**

Cynghorwyr : Gerwyn Owen, (Cadeirydd) Alan Henson) Lynford Thomas Glyn Davies, Johnny Davies, Harry Williams, Lyn Williams, Owen Llywelyn, Hywel Ifans.

1.**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Haf Hughes, Daniel Evans

**3**. **PERSONOL**

Estynwyd cydymdeimlad â'r Cyng. Owen Llywelyn ar golli ei ewythr yn ddiweddar ac estynwyd dymuniadau da i'r Cyng. Lynford Thomas yn dilyn pwl o anhwylder yn ddiweddar.

**4. DATGELU BUDDION PERSONOL**

i. Cynllunio A210752 - Hendre Einon, Abermeurig, Lampeter. SA48 8PP

**5**. **COFNODION**

Cadarnhawyd cofnodion 13/07/2021. Cynigiwyd gan y Cyng. Glyn Davies ac eiliwyd gan Y Cyng. Alan Henson.

**6.. MATERION YN CODI**

**5 iii. Hywel Dda.** Derbyniwyd ateb yn ein cynghori i gysylltu â'r Meddygfa Tan-y-Fron yn uniongyrchol os am ragor o wybodaeth.

**10.iii Cyflymder Traffig Cribyn.** Anfonwyd llythyr at Mathew Collins ar y 15fed o Orffennaf, yn datgan siom am agwedd y Cyngor Sir tuag at gydweithio â'r Cyngor Cymuned ond ni dderbyniwyd unrhyw ymateb hyd yn hyn. Yn dilyn llythyr â ymddangsodd yn y Cambrian News yn son am yr un broblem, fe wnaeth Y Cyng. Lyn Williams a'r Clerc ymweld â Mr. Terry Smith i adrodd ar yr hyn y mae'r Cyngor Cymuned yn ei wneud parthed y mater. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd rhoi cynnig i'r Cyngor Sir unwaith eto am fesurau atal spîdo ychwanegol.

**7**. **ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR**

Cafwyd adroddiad gan Y Cyng. Lynford Thomas am ei waith dros fisoedd yr haf gan gynnwys newyddion bod tri thŷ wedi eu clustnodi ar gyfer teuluoedd o Afghanistan. Crëwyd pwyllgor arbennig ar gyfer craffu ar geisiadau cynllunio ac o ran Covid19 nododd bod y rhifau'n codi a wedi dyblu o fewn wythnos I 496.6/100,000.

**8**. **CYLLID**

i. Cyflwynwyd, trafodwyd a derbyniwyd y gyllideb hanner blwyddyn 2021-22

ii. Tâl y Clerc mis Gorffennaf £199.41

iii. Derbyniwyd Ad-daliad TAW o £55.91

iv. Derbyniwyd ail daliad Praespet 31/7/2021 £3316.67

v. Gweddill yn y banc £9,531.00

**vi. Gwariant Prosiect Cymunedol**

Cais Gweithgor Dyffryn Aeron – ni drafodwyd y cais yn llawn a phenderfynwyd ei gynnwys ar yr Agenda mis nesa.

vii. Bocsus Blodau – Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd archebu 10 bocs ar £55,00 yr un. Penderfynwyd gofyn i Stuart Akkermans, Gerddi Cae Hir i roi cyngor am y blodau fydd eu hangen.

viii. Adnoddau ar gyfer newydd-ddyfodiaid. – Ni drafodwyd.

**9**. **CYNLLUNIO**

A210752 - Hendre Einon, Abermeurig,. SA48 8PP. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd derbyn y cais yn unfrydol. Cynigiwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng. Lyn Williams.

**10. CYFARFOD CAVO**

Ymunodd y Clerc â'r weminar hwn yn amlinellu rheolau newydd Covid. Yn ystod y cyfarfod pwysleisiwyd bod angen i drefnwyr digwyddiadau yn ogystal â'r rhai sy'n gofalu am neuaddau baratoi Asesiad Risg cyn cynnal digwyddiadau. Cadarnhaodd y Cadeirydd bod Pwyllgor Neuadd Dihewyd eisoes wedi mabwysiadu templad Asesiad Risg y Cyngor Sir.

**11. PABI GWYN**

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd archebu dau dorch pabi gwyn i'w cyflwyno ar Sul y Cofio gyda'r ddau dorch pabi coch. Cynigiwyd gan Y Cyng. Owen Llywelyn ac eiliwyd gan Y Cyng. Lynford Thomas.

**12**. **GOHEBIAETH**

i. Llythyr wrth Havav yn holi am wirfoddolwyr. Yn dilyn trafodaeth ac awgrym gan Y Cyng. Harry Williams penderfynwyd arddangos yr hysbyseb ar yr hysbyfyrddau cymunedol.

ii. Derbyniwyd holiadur gan Ben Lake ynglyn a Chyfrifon a Gwasanaethau Banc Cymunedol – cwblhawyd yr holiadur gan y Clerc.

iii. Cau ffyrdd:

21 Medi o 8.00 tan 5.00 Gwaith BT Talsarn B4342

13 – 17 Medi am 10 munud ar y tro – Llanybydder, Llanwnnen, Ffrwd.

**13. TROSOLWG GWAITH YR HAF**

I. Tafarn Dyffryn Aeron. Bu nifer o'r aelodau mewn cyfarfod i drafod dyfodol Tafarn y Vale.

II. Gwobr y Gymuned. Dewiswyd tarian o Siop Siant. Dosbarthwyd taflenni enwebu.

III. Anfonwyd y Datganiad Blynyddol am gostau Cynghorwyr - Nil Return - at Banel Annibynnol Cymru

IV. Anfonwyd cefnogaeth i'r Adran Gynllunio am y ceisiadau isod:

A210696 – Adeiladu tŷ drws nesa i Y Dolau, Felinfach,, SA48 8AE

A210752 - Hendre Einon, Abermeurig, SA48 8PP

V. Ni ddatganwyd unrhyw wrthynebiad i'r enw BRO MEGAN ar yr ystad o dai newydd yn Ystrad Aeron.

**14. UNRHYW FATER ARALL**

i. Soniwyd yn fras am gynlluniau sydd ar y gweill i gynnig bod cyfarfodydd dros y we yn medru digwydd law-yn-llaw â chyfarfodydd wyneb-yn-wyneb.

ii. Nododd Y Cyng. Glyn Davies ei bryder parthed y cynnydd yn y defnydd o gyffuriau ymysg pobl ifanc Felinfach a'r ardal. Yn dilyn trafodaeth hir, penderfynwyd yn unfrydol hala llythyr at Gomisiynydd yr Heddlu a'r Prif Gwnstabl.

iii. Nododd Y Cyng, Lyn Williams bod arwydd pentre' Cribyn o gyfeiriad Temple Bar wedi diflannu. Penderfynwyd cysylltu â'r Sir.

iv. Cinio'r Cadeirydd. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd cynnal Cinio'r Caderiydd ym mis Tachwedd. Cynigiwyd gan y Cyng. Harry Williams ac eiliwyd gan Y Cyng. Alan Henson.

v. Oherwydd problemau gyda'r sain yn Neuadd Felinfach, penderfynwyd cynnal y cyfarfodydd yn Neuadd Dihewyd hyd nes y bydd modd defnyddio'r 'stafell

fach yn Neuadd Felinfach.  Does dim modd cynnal cyfarfodydd yn Ysgol Cribyn ar hyn o bryd oherwydd nad oes disgyblion yna bellach a'r Sir wedi gwagio'r Ysgol o'r dodrefn

**15. DYDDIAD A LLEOLIAD Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fawrth, 12fed Hydref, 2021 yn Neuadd Dihewyd